# Y Ddolen

Papur

Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin

**WELE'N SEFYLL RHWNG Y MYRTWYDD**
**WRTHRYCH TEILWNG O'M HOLL FRYD,**
**ER MAI O RAN YR WY'N ADNABOD**
**EI FOD UWCHLAW GWRTHRYCHAU'R BYD:**
**HENFFYCH FORE**
**Y CAF EI WELED FEL Y MAE.**

***Caneuon Ffydd:319***

**Ann Griffiths**
**Ebrill 1776 – Awst 1805**

## Rhifyn 1
## PAPUR EBRILL 2026

# CYFARCHION Y PASG GAN BETI-WYN

***'A dyma Iesu dod ac yn sefyll y neu canol, ac yn dweud wrthynt***

***"Tangnefedd i chwi!" (Ioan 20)***



**Doedd hi ddim yn fwriad gan Iesu i godi ofn ar y disgyblion a oedd wedi mynd i guddio'r tu cefn i ddrysau clo wedi'r croeshoelio.**

**Roedd ei eiriau'n weddi ddwys ac yn fynegiant pwerus o obaith.**

**Trwyddynt, roedd Iesu yn gweddïo y byddai'r disgyblion yn dod o hyd i heddwch.**

**Roeddent yn cynnig sicrwydd y byddai ef gyda hwy yn y dyfodol,**
**gan ddod yn ffynhonnell o gryfder a chysur mawr i'r disgyblion pryderus.**

**A dyna yw dymuniad Iesu i ni y Pasg hwn mewn byd lle mae rhyfel yn rhemp.**

**Gweddïwn y bydd i leisiau'r Tangnefeddwyr gael eu clywed uwchlaw lleisiau'r terfysgwyr.**

**GWEDDI PASG DROS HEDDWCH Y BYD**



**Arglwydd atgyfodedig,**

**Ar fore Sul y Pasg,**
**Ar y diwrnod sanctaidd hwn o obaith a bywyd newydd,**
**down atat mewn gweddi gyda chalonnau'n hiraethu am heddwch yn ein byd.**

**Lle mae rhyfel, planna gymod.**
**Lle mae casineb, tyrd â chariad,**
**Lle mae ofn, deffra ddewrder.**
**Lle mae dioddefaint, tywallt dosturi.**

**Adnewydda galonnau dy blant,**
**fel y gallwn weld ein gilydd yn frodyr a chwiorydd,**
**wedi'n creu ar dy ddelw ac wedi'n huno gan dy gariad.**
**Bendithia arweinwyr y cenhedloedd â doethineb a gostyngeiddrwydd.**

**Arwain nhw i ddewis**
**deialog iach dros ymraniad ac anghytundeb,**
**cyfiawnder dros rym,**
**a heddwch dros wrthdaro.**

**Gweddiwn y bydd i oleuni'r Pasg ddisgleirio i bob cornel o'r byd,**
**gan iacháu clwyfau,**
**adfer gobaith,**
**a gwneud pob peth yn newydd.**

**Gofynnwn hyn mewn ffydd ac ymddiriedaeth,**
**yn enw Iesu Grist a thrwy nerth ei atgyfodiad.**

**Amen**

# DARLLENIADUR

| Mis Ebrill | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 -Yr Wythnos Fawr | |
| Llun | Ioan 12: 1-11 |
| Mawrth | Ioan 12: 20-36 |
| Mercher | Ioan 13: 21-32 |
| Iau Cablyd | Ioan 13: 1-17, 31b-35 |
| Gwener y Groglith | Ioan 18: 1-19, 42 |
| Sadwrn y Pasg | Mathew 27: 57-66 |
| Sul y Pasg | Luc 24: 13-49 |
| Wythnos 2 – Sul y Pasg Bach | Ioan 20: 19-31 |
| Wythnos 3 | Luc 24: 13-35 |
| Wythnos 4 | Ioan 10: 1-10 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**FFEDERASIWN SEFYDLIAD Y MERCHED**
**DAVE THOMAS**
**EIRA PHILLIPS**
**JOHN A CARYS GREEN**
**RHIAN EVANS**
**CAPEL BANCYFELIN**
**CAPEL CANA**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES (TRYSORYDD)
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu ei osod mewn amlen a'i ddychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei roi yn y blwch casglu.

## CAPELI AC EGLWYSI CYMRAEG CAERFYRDDIN YN DATHLU GŴYL DEWI AR FAWRTH Y CYNTAF



### Yn y Bore

Roedd cynulleidfa dda wedi dod ynghyd i'r Priordy ar gyfer y gwasanaeth arbennig hwn, cymaint yn wir fel yr oedd angen i nifer ohonom fynd i'r galeri i gael lle i eistedd! Roedd hefyd fwy o blant yn bresennol nag a welwyd ers sawl blwyddyn a'u gwisgoedd lliwgar a'r addurno yn y capel yn ychwanegu at naws yr achlysur.



Llywiwyd y gwasanaeth gan blant Ysgolion Sul Cymraeg Caerfyrddin, gan gynnwys estyn gair o groeso i ni oll ar y dechrau! Cawsom ddigon ganddynt i gnoi cil drosto, yn cynnwys grŵp yn llefaru am gariad Duw gan nodi'r pethau y gallwn eu gwneud i ddangos ein bod yn caru Duw ac eraill, a grŵp yn mynegi diolch i Ddewi am wahanol bethau drwy arddangos llythrennau enw'n Nawddsant a chynnig brawddeg yn dechrau'r gyda phob llythyren, a dialog am Ddewi'n pregethu yn Llanddewi Brefi pan gododd y tir oddi tano a cholomen yn glanio ar ei ysgwydd yn symbol o'r Ysbryd Glân a Heddwch.



Daeth y plant at ei gilydd yn un côr swynol i'n diddanu gyda chadwyn o ganeuon i ddathlu'r dydd arbennig hwn, Cyflwynodd y plant y gweddïau a'r emynau a ganwyd i gyfeiliant Band y Priordy. Diolch iddynt hefyd am gasglu. Roedd y casgliad yn mynd at brynu Beiblau Cymraeg ar gyfer ein hysgolion Cymraeg lleol. Cawsom ninnau'r oedolion gyfle i gymryd rhan yn ogystal drwy ymuno yng nghytgan y gân Gwisg dy genhinen Bedr a ddangoswyd ar y sgriniau.



Heledd ap Gwynfor, Maer y Dref, a gyflwynodd y darlleniad am gariad o Efengyl 1 Ioan 4.

Y siaradwr gwadd oedd ein Harchdderwydd Mererid Hopwood. Rai dyddiau'n gynharach bu'n sgwrsio gydag Aled Hughes ar Radio Cymru am chwedlau a

throsglwyddo straeon i blant ac ennyn eu sylw. Llwyddodd yn gampus yn hynny o beth gan ddefnyddio'r darlun The Fall of Icarws gan Breughel sy'n seiliedig ar y chwedl enwog o fytholeg Roegaidd am Icarws, mab Daedalus yn hedfan yn rhy agos at yr haul ac yn cwympo i'r cefnfor. Dangosodd i ni drwy'r darlun a'r chwedl mor bwysig yw sylwi ar bethau bach a hefyd mor bwysig oedd y pethau hynny yng ngolwg Dewi - pethau y dylem geisio'u cyflawni yn ein bywyd bob dydd. Roedd y gwrandawiad a'r ymateb yn dangos fel y gall hyd yn oed y clasuron mwyaf apelio at blant o oedran tyner a dysgu gwersi iddynt - a ninnau oedolion hefyd!

Diolchodd Beti-Wyn i bawb a gymerodd ran am eu gwaith graenus, i'r rhai a fu'n paratoi ar gyfer y gwasanaeth ac i'r siaradwr gwadd. Aethom adre'n llawn diolch am orig gyfoethog a bendithiol iawn.

**Yn yr hwyr yn Elim**




Roedd croeso cynnes yn disgwyl capeli ac eglwysi Cymraeg ein tref yn yr oedfa Gymun yn Elim. Fe'i llywyddwyd gan ein Gweinidog. Cafwyd darlleniad o Lyfr y Salmau gan Delyth Williams, Y Tabernacl ac o'r Testament Newydd gan Huw Michael (P). Cawsom wrando ar gân dros y sgriniau sef yr anthem Byddwch yn Ffyddlon gan Gôr Caerdydd. Rhyddhawyd y fideo gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn dilyn gweddi gan Janet Evans (HA) pregethwyd gan Y Parchedig Randolph Thomas ar Nicodemus. Gweinyddwyd y Cymun gan ein Gweinidog a'r Parchedig Emyr Williams (Babell Zion Newydd). Cafwyd cymorth Ann Walters (E), Meurig Rees (BZN), Margaret Walters (Y Tabernacl) a Joan Thomas (HA) i rannnu'r bara a'r gwin. Yr organydd oedd John Evans (E). Bu'n glo hyfryd i ddiwrnod llawn yn dathlu nawddsant ein cenedl.



| | |
|---|---|
| | ***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY*** <br> ***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da*** |

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Marian Hughes (HA) a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ar 6 Mawrth 2026. Pleser gan ein Gweinidog oedd ei chyfarch ar ran aelodau Heol Awst ar yr achlysur arbennig hwn.



## GWOBRWYO FIONA ELIAS

***Gweler y Rhwydwaith***



## Dydd Gweddi’r Byd yn yr Ofalaeth




Bu aelodau’r Ofalaeth yn cymryd rhan mewn dwy oedfa ar Ddydd Gweddi’r Byd. Bu aelodau Cana a Bancyfelin mewn oedfa yn festri Cana ac aelodau Elim, Heol Awst a’r Priordy mewn oedfa yng Nghapel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst, Caerfyrddin. Paratowyd yr oedfa eleni gan grŵp ecwmenaidd o ferched Cristnogol o Nigeria yn seiliedig ar thema Mathew 11:28–30: “Rhoddaf orffwys i chi, dewch.”

Cymerwyd rhan yn yr oedfa yng Nghana (llun isod) gan Gwyneth Griffiths (B), Julie Saer (B), Veronica Evans (B), Carwen Howells (B) a Trefina Jones (B) a Carolyn Hancock (C), Rhian Bowen (C), Myra Evans (C), Non James (C), Bethan James (C), Ann Jones (C), Marlene Jones (C) a Mair Jones (cyfeilydd) (C),



Cymerwyd rhan yn yr oedfa yng Nghaerfyrddin gan Janet Jones, Helen Jones ac Eirlys Thomas (HA), Anona Dafis ac Amanda Davies (E) a Heather Williams, Jacqueline Saywell a Catrin Heledd (P).

| DATHLU’R PASG YN Y TABERNACL | |
|---|---|
| **NOS IAU CABLYD**<br>***2 Ebrill 2026 - 7.00pm***<br>**OEDFA GYMUN**<br>**Y PARCHEDIG DDOETHUR**<br>**DESMOND DAVIES**<br>***Caerfyrddin*** | **DYDD GWENER Y GROGLITH**<br>***3 Ebrill 2026 - 10.30am***<br>**OEDFA BREGETHU**<br>**Y PARCHEDIG**<br>**PETER THOMAS**<br>***Aberystwyth*** |

## Dathlu Gŵyl Dewi yn Festri Cana



Llanwyd Festri Cana gan aelodau Cana a Bancyfelin ynghyd â chyfeillion ar gyfer dathlu Gŵyl Dewi ddydd Sul 1 Mawrth.



Paratowyd y cawl blasus gan Sheila Phillips a'r danteithion melys gan y gwragedd a fu hefyd yn gweini'n siriol wrth y byrddau. Cafwyd y pleser o glywed rhai o blant Ysgol Sul Cana yn llefaru darnau yr oeddent wedi eu paratoi ar gyfer y Eisteddfod ac yna neges gan Beti-Wyn am bwysigrwydd arwyddocâd y golomen a ddisgynnodd ar ysgwydd Dewi Sant.

Aeth pawb adref wedi derbyn boddhad a bendith o ddod ynghyd.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau ac am bob cefnogaeth i'r ginio.

## CINIO GŴYL DEWI'R OFALAETH YNG NGHLWB Y CWINS
## GYDA'R CANWR GRUFFYDD WYN ROBERTS
## YN EIN DIDDANU

















**Y Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Dewi**

Daeth yn agos i 70 o aelodau ynghyd i Glwb y Cwins ddydd Mawrth 3 Mawrth ar gyfer ein Cinio Gŵyl Dewi. Darparwyd cawl blasus a dewis o bwdin ar ein cyfer gyda phaned derbyniol iawn i ddilyn. Diolch i Cath a'i thîm am ofalu amdanom, a gweini mor siriol wrth y byrddau y bwyd blasus arferol. Yna, cyflwynwyd ein gwestai gwadd gan Beti-Wyn sef y canwr Gruffydd Wyn. Yn enedigol o Ynys Môn, daeth i enwogrwydd pan ymddangosodd yn ffeinal 'Britain's Got Talent' wedi iddo dderbyn y seiniwr aur gan Amanda Holden! Aeth ymlaen i gipio gwobr Cân i Gymru gyda'i gân wreiddiol 'Cyn tynnu'r llen'. Swynwyd pawb gan ei lais arbennig ac roedd y floedd o gymeradwyaeth yn arwydd sicr o werthfawrogiad y gynulleidfa o'i dalent. Roedd hi'n bleser yn wir ei gael yn ein cwmni. Diolch i Olga Williams (HA) a Rhian Jones (P) am drefnu'r ginio ac i June Thomas (P) a Heather Williams (P) am werthu'r tocynnau raffl. Diolch am bob cefnogaeth i brynhawn arbennig iawn.

**PARTI CANU'N LLWYDDO**



Cynhaliwyd Eisteddfod Fach Capel Dewi nos Wener 20 Mawrth. Roedd rhai o blant y Priordy'n cystadlu mewn eitemau unigol a phenderfynwyd ffurfio parti canu ar y pryd, sef Parti Canu Plant y Priordy a chawsant y wobr gyntaf! Da iawn bawb!



**MUNUD I FEDDWL**

**Bydd ein Gweinidog yn cyflwyno *Munud i Feddwl* yn ystod rhaglen *Bore Cothi* ar *Radio Cymru* bob bore Mercher ym mis Ebrill**

**Ann Griffiths**
**1776 - 1805**

**Tudalen Blaen**



Dim ond tamaid i aros pryd y mis hwn!  Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at groesawu'r Athro E Wyn James i'n hannerch ar Ann Griffiths a Chymru'n dathlu pen-blwydd ei geni ddeucan mlynedd a hanner yn ôl i'r mis hwn.

Fe'i ganwyd yn Nolwar Fach. Llanfihangel yng Ngwynfa, Sir Drefaldwyn ym mis Ebrill 1776. Roedd yn mwynhau bywyd ysgafn pan oedd yn ifanc ond daeth newid iddi ar ôl gwrando ar Benjamin Jones, Pwllheli, yn pregethu. O ganlyniad, ymunodd â'r seiat Fethodistaidd ym Mhontrobert er mai yn yr Eglwys Anglicanaidd y cafodd ei magu. Daeth i gyswllt â John Hughes, athro a phregethwr a bu'n gohebu llawer ag e. Priododd John Thomas, ffermwr o Feifod, yn 1804. Ganwyd merch iddynt yn 1805 ond bu farw'r baban yn bythfnoos oed. Bu farw Ann yn fuan wedyn ym mis Awst 1805 yn 29 oed. Fe'i claddwyd yn Llanfihangel.



Byddai Ann yn adrodd ei hemynau wrth Ruth Evans, ei morwyn, a ddaeth yn wraig i John Hughes.  Cofiai Ruth yr emynau ar ei chof a chawsant eu cofnodi gan John Hughes. Ychydig iawn o emynau a ysgrifennodd ar bapur - dim ond un emyn sydd wedi goroesi yn ei llawysgrifen.

Meddai'r Bywgraffiadur Cymreig am yr emynau: *Nodweddir hwynt gan gyfeiriadau ysgrythurol cymhleth, profiad ysbrydol dwfn, cyfriniol; a ffigurau ymadrodd beiddgar. Ysgrifennwyd hwynt, gan mwyaf, ar y mesur wyth saith clonciog - mesur a rydd gryn drafferth i gerddorion yn ogystal ag i olygwyr casgliadau emynau.*

Dewiswyd pennill cyntaf Emyn 319 yn Caneuon Ffydd ar gyfer y tudalen blaen. Mae'r Cydymaith i Ganeuon Ffydd yn nodi fel y mae'r emyn yn llawn o gyfeiriadaeth Feiblaidd. *'Daw'r darlun o'r gwrthrych rhwng y myrtwydd o Sechareia 1:8; gwelir Rhosyn Saron yng Nghaniad Solomon 2:1 ac mae'r cwestiwn yn y trydydd pennill, 'Beth sydd imi mwya a wnelwyf / ag eilunod gwael y llawr? Yn adleisio Hoseia 14:8.*

Dewisodd y Dr Rowan Williams yr emyn hwn i gael ei ganu yn y seremoni pan gafodd ei orseddu yn Archesgob Caergaint yn Chwefror 2003. Cyfieithodd yr emyn ei hun a chredir mai dyna'r tro cyntaf i waith yr archesgob ei hun fod yn rhan o'r seremoni.






Perfformiodd Cwmni Theatr Maldwyn ddrama gerdd am hanes bywyd Ann Griffiths yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2003. Mae'n cynnwys cyflwyniad o Rwy'n Dy weld yn Sefyll sy'n seiliedig ar yr emyn 'Wele'n sefyll..'.

Mae 14 o emynau Cymraeg gan Ann Griffiths yn Caneuon Ffydd a throsiad o Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd gan Jane Owen (1899-1902) (Lo, Amid the myrtles standing) yn yr Adran Saesneg.

Yn ddiamau, mae Ann Griffiths yn berson ac yn emynydd arbennig iawn. Dyfynnwn yr emyn Wele'n sefyll.. fel y mae yng Nghaneupon Ffydd yn llawn i ddiweddu'r sylwadau hyn er clod iddi ar yr adeg arbennig hwn:

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
wrthrych teilwng o'm holl fryd,
er mai o ran yr wy'n adnabod
ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:
henffych fore
y caf ei weled fel y mae.



Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd;
ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd:
ffrind pechadur,
dyma ei beilot ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf
ag eilunod gwael y llawr?
Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
i'w gystadlu â'm Iesu mawr:
O am aros
yn ei gariad ddyddiau f'oes.

**LLYTHYR A DDERBYNIODD EGLWYS HEOL AWST ODDI WRTH Y PARCHEDIG OWAIN LLŶR EVANS, LLYWYDD UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**



Diwedd Chwefror

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yng Nghrist yn Heol Awst. Caerfyrddin

Roedd yn rhaid imi osod inc ar bapur i'ch cyfarch fel eglwys, a chwithau'n dathlu 300 o flynyddoedd o wasanaeth a gweinidogaeth.

Beth yw Heol Awst, Caerfyrddin?
Pedwar mur a tho?
Ie, dim ond adeilad ac mi wn nad artistwaith yr adeilad sydd yn llonni enaid pobl dda Heol Awst, ond yn hytrach ei arwyddocâd. Nid ceinder Heol Awst, ond ei chenadwri sydd yn agos at eich calon.

Beth yw Heol Awst?
Aelwyd? Eto, ie, heb os. Aelwyd iach a chlos, un aelwyd o fendith dan drefn a rheol cariad. Aelwyd nad oes ei bath yn unman arall. Cynnwys yr hen a'r ifanc, syml a dysgedig, ceidwadol a chwyldroadol. Unir hwynt oll gan y wybodaeth mai plant Duw ydynt, ac os plant, cyd-etifeddion â Christ – eneidiau unedig.

Beth yw Heol Awst?
Mae pobl Rhosllannerchrugog yn ymfalchïo yn y gred 'Nad lle yw'r Rhos ond pobol'. Mae hynny'n gwbl wir am Heol Awst. Nid capel ond eglwys ac mae'r achlysur hwn yn gyfle i nodi a dathlu mai hanfod cymeriad Heol Awst yw'r sawl sy'n ei mynychu.

Felly, mentraf, fel Llywydd cyfredol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i ymuno, trwy gyfwng y llythyr, â'ch diolch a'ch dathlu. Gyda chi, diolchaf am y gobaith a wreiddiodd mor ddwfn, am y cariad a droes yn fflam, am y gobaith a droes capel yn eglwys. Diolchwn am y rhai a fu ers 300 o flynyddoedd yn eiriol trosom, a chi nawr yn diolch am y cyfle i eilio eu ffydd yn genhadaeth heddiw – nawr – dros ein Harglwydd byw a bendigedig.

Yn gywir,

Owain Llyr

***YSGOL SUL Y PRIORDY YN DYSGU AM Y SWPER OLAF***



***YSGOL SUL ELIM YN DYSGU AM Y PASG***



**Roedd cynrychiolaeth o Gapel Bancyfelin yn bresennol yn Oedfa Basg Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin a gynhaliwyd yng Nghapell Babell Zion. Thema’r oedfa oedd ‘Iesu, yr Atgyfodiad a’r Bywyd**



## Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg




Bu Joan Thomas (HA) yn cynrychioli Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng Nghyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Aberystwyth yn ystod y mis. Yno hefyd roedd ein Gweindiog sy'n Gadeirydd un o adrannau'r Undeb ar hyn o bryd, sef adran 'Yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth' ac yno yn ogystal yn ysbrydoliaeth i ni i gyd roedd Ysgrfennydd Cyffredinol yr Undeb, sef Elinor Wyn Reynolds (P). Cafwyd cynhadledd gynhyrchiol a bendithiol iawn.

## DATGANIAD NEWYDDION GAN GYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN, UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Gwnaethpwyd datganiad gan y Cyfundeb yn ei gyfarfod yn Nhre-lech ym mis Mawrth yn galw am gymorth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddefnyddwyr olew yn dilyn y prinder a'r cynnydd mewn pris a achosir gan y rhyfel yn y Dwyrain Canol. Cyfeiriodd Brian Walters, Is-gadeirydd y Cyfundeb at bobl cefn gwlad Cymru sy'n dioddef 'o ganlyniad i ymddygiad arweinwyr rhyfelgar sydd wedi achosi'r fath wrthdaro dinistriol yn y Dwyrain Canol.' Ymhelaethodd Brian ar hyn yn y Bwletin Amaeth yn ystod Rhaglen John Hardy ar Radio Cymru.



**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**
**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**Cadeirlan Goleuni'r Gogledd, Alta, Norwy**



**Lleolir y gadeirlan ym Mwrdeistref Alta, Swydd Finnmark, yn Norwy.**

**Cafodd ei chodi rhwng 2009 a 2013 gan ddefnyddio concrid a phren, gyda haenau titaniwm.**

**Mae'r gadeirlan ar ffurf cylch a'i phrif nodwedd yw'r tŵr troellog gyda chlochdy.**

**Mae'r gadeirlan yn cynnwys arddangosfa am Oleuni'r Gogledd.**

**Arddangosfa ysblennydd a lliwgar o oleuni a welir yn y nos yng nghyffiniau hemisffer y gogledd yw Goleuni'r Gogledd neu'r Aurora Borealis. Un o'r mannau gorau yn y byd i weld yr Aurora Borealis yw Alta a hynny rhwng mis Hydref hyd at ganol Ebrill.**

**Mae'r gadeirlan yn un o adeiladau mwyaf adnabyddus Norwy.**

## OEDFA CANMLWYDDIANT SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd oedfa arbennig yn Y Priordy b'nawn Sadwrn 21 Chwefror 2026 i ddathlu Canmlwyddiant Ffederasion Sefydliad y Merched (SyM) Sir Gâr.

Braf oedd gweld llawr y capel yn llawn. Arweinwyd yr oedfa gan gynrychiolwyr o holl ganghennau SyM yn y Sir a chafwyd neges gan ein Gweinidog. Yr organydd oedd Heather Williams. Canwyd cân y dathlu yn swynol iawn gan gangen Bancyfelin a oedd yn cynnwys nifer o aelodau'r Ofalaeth.

Prynhawn bendithiol iawn. Mae'n dda medru croesawu digwyddiadau fel hyn i Gapeli'r Ofalaeth.

# *CYNGERDD*

## *Côr Tonic*

*yng nghwmni*

*Owain Rowlands, Llandeilo (Tenor)*
*a*
*Chôr Meibion Dwyfor*

*am*
*7yh nos Sadwrn, Mai 23 ain*
*yng Nghapel Y Priordy*

*Tocyn £15 (yn cynnwys raffl)*
*Plant ysgol am ddim*

*Elw tuag at Uned Gemotherapi Glangwili*

**BORE COFFI LLYFRAU LLAFAR CYMRU**

**Dydd Mercher 15 Ebrill 2026**
**10.30-12.00**

**Gwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin**

**Tocynnau: £3**

# PARÊD GŴYL DEWI TREF CAERFYRDDIN


















# Ifanc@gofalaeth



## Pasg Hapus i bawb!

**Lliwiwch y siapiau gan ddefnyddio'r lliwiau sy'n cyfateb i'r rhifau er mwyn darganfod pan lun sydd yno!**

1. Glas Golau
2. Glas tywyll
3. Gwyrdd golau
4. Gwyrdd tywyll
5. Melyn
6. Brown Golau
7. Brown Tywyll
8. Coch
9. Pinc




Gweddi

Arglwydd,
diolch am Y Pasg.

Am i Iesu farw
trosom ar y groes,
Diolch i Ti.

Am iddo ddod yn
fyw ar fore'r
trydydd dydd,
Diolch i Ti.

Helpa ni i gofio
gwir ystyr y Pasg
wrth i ni ddathlu
eleni.

Amen



## Chwilotair Y Pasg

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | E | G | B | D | O | I | D | D | H | D | U | L | A |
| R | B | U | D | D | U | G | O | L | I | A | E | T | H |
| E | D | C | E | L | D | O | C | E | L | U | G | U | U |
| C | H | E | I | O | O | O | A | O | G | A | R | D | D |
| A | Y | D | E | S | H | H | G | N | E | B | T | S | D |
| W | U | Y | E | A | Y | D | G | O | B | C | F | S | A |
| E | H | O | E | B | O | I | E | I | E | O | O | U | Y |
| H | R | G | S | B | D | A | I | L | D | R | F | L | E |
| C | H | E | N | C | B | O | R | E | D | O | O | N | D |
| Y | R | Y | B | D | Y | L | D | O | B | N | I | Y | C |
| T | Y | G | W | O | E | D | S | H | O | A | R | C | E |
| N | I | E | I | Y | F | I | L | A | E | A | O | G | T |
| R | D | C | D | O | T | Y | W | Y | L | L | W | C | H |
| I | H | C | R | A | T | G | Y | F | O | D | I | A | D |

**TYWYLLWCH, GOLAU, HOELION, CROES, BORE, BUDDUGOLIAETH, CORON, BEDD, GARDD, ATGYFODIAD**



**Mwynhewch Y Pasg**
**Hwyl am y tro**
*Beti-Wyn*



## TALWRN Y DAFFODIL

### Llwyddiant i Dîm y Priordy



***Llongyfarchiadau mawr i Dîm y Priordy ar ddod i'r brig yn Nhalwrn y Daffodil a gynhaliwyd yn Yr Egin ar Nos Fercher 4 Mawrth 2026 a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Cymerodd pedwar tîm ran – Cwm Gwendraeth, Myrddin a'r Derwyddon o'r Ysgol Farddol a'r Priordy. Y ddau Feuryn oedd yr Archdderwydd Mererid Hopwood a'r Prifardd Tudur Dylan Jones. Casglwyd £341 ar y noson at yr elusen Angor Sir Gaerfyrddin sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol i unigolion a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gancr neu barhad bywyd. Byddwn yn cyhoeddi gwaith y tîm buddugol yn ein rhifyn nesaf!***

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**
**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau 14 Mai 2026**





**Capel Gibeon, Bancyfelin - SA33 5NP**
**Y Gynhadledd am 4.00 / Cyfarfod yr Hwyr am 7**

**Anerchiad yn yr hwyr gan**
**Y Parchedig Owain Llŷr Evans**
**Llywydd yr Undeb**

## SUL Y FAM

### Yn y Priordy

**Elinor W Reynolds**



Ar Sul y Fam (nid Sul y Mamau, achos go iawn, ma POB Sul yn Sul y Mamau, yndyn nhw ferched?) cafwyd cyfle yn y Priordy i ddiolch, nid yn unig am ein mamau, ond hefyd am ein mam-eglwys, yr eglwys a roddodd fagwraeth gadarn yn y ffydd i ni, ynghyd â'n rhieni.

Y traddodiad oedd i fynd yn ôl i'r eglwys ble'ch maged chi, a hynny dri Sul cyn y Pasg yn ystod cyfnod y Grawys. Bryd hynnny byddai gennych hawl i dorri'r Grawys drwy fwyta teisen Simnel, oedd yn llawn ffrwythau sych, a haenau o farsipán a siwgr eisin arni. Ar eich ffordd i'r capel, byddai pobl yn casglu blodau o'r perthi ac yn eu cyflwyno i'w mamau ar ôl cyrraedd. Erbyn heddiw, mae'r Sul hwn wedi mynd yn fwy masnachol, fel pob dim arall y dyddiau hyn. Ond y mae'r diolch am ein magwraeth yn aros yr un, yn fwy gwerthfawr nag aur neu arian.

Ac mae'r rhai fu wrthi'n ein magu a'n hannog wedi bod yn dyst i'r da a'r drwg, felly hefyd rieni Iesu ei hun. Mi gawson nhw brofi'r uchelfannau yn ogystal â'r gwaelodion enbyd. Fe glywsom fersiwn gryno o hanes Iesu ar ei brifiant, gan godi bawd ar i fyny os oedd yr hanes yn un da, a dangos bawd ar ei waered os oedd yr hanes yn drist – arweiniodd Beti-Wyn ni yn yr ymarferiad hwn gyda'i harwyddion *thumbs up* a *thumbs down*, rhag i ni ddrysu (achos roedd perygl real o hynny).



Diolch i'r rhai fu'n arwain y rhan hon o'r gwasanaeth, sef y mamau bendigedig: Meleri Llwyd, Rebecca Hayes, Carys Morgans a Heledd ap Gwynfor.

Yna cafwyd gair i'r plant (a'r oedolion hefyd, gadewch i ni fod yn onest) gan Beti-Wyn, pan ddangosodd ei handbag anferthol ac ysblennydd i ni. Esboniodd bod mamau (a thadau) yn cadw pethau yn eu bagiau i'n cynnal a'n cadw ni'n ddiogel. Dyma beth oedd gan Beti-Wyn yn ei bag anhygoel hi: neisiedi papur er mwyn sychu dagrau a chysuro, cerdyn banc fel nad ydyn ni'n mynd heb ddim, allwedd i'r tŷ ac mai ein cartrefi yw'n lloches, allwedd i'r car i'n cymryd ni'n ddiogel i bobman er mwyn i

ni gael y profiadau fydd yn ein dysgu i dyfu'n bobl dda a chyfrifol, *wipes* i'n cadw ni'n lân (o'r ddau ben) a glanhau unrhyw lanast, plastar i'n helpu ni i wella pan gawn ein brifo, ac yn olaf colur am fod mamau'n gweithio'n galed bob dydd i edrych ar ôl pawb ac weithiau mae angen ychydig bach o rywbeth i roi lliw ar y bochau. Mae Duw yn ein cynnal a'n cadw ni'n ddiogel fel ein rhieni.

Am fore ardderchog gafwyd ar Sul y Fam, gan i ni ddiolch am ein magwraeth ac am y gofal gawsom ni wrth brifio, a chofio hefyd ein bod ni'r oedolion yn gweithredu fel rhieni eglwys i blant presennol teulu'r Priordy. Diolch i Fand y Priordy am rocio'r lle gyda phob emyn (cafwyd tamed o 'Hei Mistar Urdd' adeg y casgliad hyd yn oed) a'r band taro yn cadw ni i fynd hefyd.

Dathlwyd, do fe ddathlwyd, a rhoi diolch.

## Yn Elim, Ffynnon-ddrain

Bu 'Bag Mawr Beti-Wyn' ar daith ar Sul y Fam eleni! Wedi'r oedfa deulu yn Y Priordy, roedd cynulleidfa ffyddlon yn ei ddisgwyl yn Elim. Wedi ymuno i ganu'r Intrada 'Agor ein llygad i weled yr Iesu' bu Brian yn darllen y llu o gyhoeddiadau cyn i Trystan ac Isaac gasglu.

Roedd gweddill yr oedfa yng ngofal plant, mamau a mam-guod yr Ysgol Sul. Cyhoeddwyd yr emynau gan Ann, Gwenna ac Elina, Lara ac Isaac. Mae'n hyfryd gweld y plant yn magu hyder i gymryd rhan yn gyhoeddus yn yr oedfaon teulu.

Cyflwynwyd hanes a thraddodiad Sul y Fam gan Mirain ac Amy cyn i bawb wylio'r ffilm am ddisgyblion Iesu a'r oedolion fel y plant yn ceisio cofio'u henwau!

Clywsom beth o hanes bywyd Iesu gan Anona, Natalie a Mirain gan ddysgu nad oedd bywyd bob amser yn hawdd iddo, ac felly ein bywydau ninnau o bryd i'w gilydd hefyd. Bu'r 'bawd i fyny' a'r 'bawd i lawr' yn arwydd fod bywyd pob un ohonom yn gymysgwch o brofiadau amrywiol.

Fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan Natalie cyn i Beti-Wyn gyflwyno'i bag mawr o drugareddau angenrheidiol. Onid yw pob mam yn cario bag mawr?! Roedd pob eitem yn y bag yn arwydd o ddymuniad pob mam a thad, a phawb arall sy'n gofalu amdanom i roi o'u gorau er ein lles ni.

Cyflwynodd plant yr Ysgol Sul dusw bychan yn cynnwys cenhinen Bedr i famau'r Ysgol Sul i'w gwisgo am y dydd, cyn cyflwyno un i bob menyw yn y capel.



Diweddwyd yr oedfa gyda'r emyn 'Hapus wyf fi am fod Iesu'n y nef, heddiw'n fy ngharu, fy Ngheidwad yw ef.'

Ar fore digon gwlyb a diflas, roedd yr awyrgylch yn Elim yn un cynnes a llawen ar ddiwrnod arbennig i bob mam. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i Mary Williams am gyfeilio.

**Yng Nghana**

Cyrhaeddodd 'Bag Mawr Beti-Wyn' Gapel Cana, a phawb yn falch ei fod wedi goroesi tair oedfa deulu mewn un dydd er gwaethaf y gwynt a'r glaw!



Roedd teulu Cana wedi paratoi'n drylwyr ar gyfer yr oedfa yn ôl eu harfer a diolch i Rhian am ddosbarthu'r gwaith i bawb.

Marlene a gyflwynodd y cyhoeddiadau a chyhoeddi'r emyn cyntaf cyn i Lilwen a Meilyr gyflwyno hanes Sul y Fam yn raenus iawn gan ymdopi â nifer o eiriau mawr! Bu criw Cana eto'n ceisio cyfrif a chofio enwau'r disgyblion yn y ffilm, cyn i Rhys esbonio rhan nesa'r oedfa ac annog pawb i godi bys bawd i fyny i nodi'r adegau llawen ym mywyd Iesu, ac i gyfeirio bys bawd i lawr ar adegau trist ei fywyd.  Ymunodd y gynulleidfa i gyd wrth i Lowri Siôn, Ava, Anni a Carolyn ddarllen yr hanes.

Wedi i Ann gyhoeddi'r emyn nesaf fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan Nia a Manon cyn i Rhian ac Elis gyhoeddi emyn pellach.

Yna, ymddangosodd Bag Mawr Beti Wyn am y trydydd tro mewn diwrnod a'r plant yn ymateb yn ardderchog i'r eitemau yn y bag a gwrando'n astud. Bu'r plant yn brysur wedyn yn rhannu cennin Pedr rhwng menywod y capel, a llawr y capel yn fôr o felyn.

Gweinyddwyd Y Cymun ar ôl i Non gyhoeddi'r emyn nesaf, a diweddwtd ein hoedfa ar nodyn llawen drwy ganu 'Iesu sy'n rhoi ei gariad i ni.' Diolch i bawb a gymerodd ran ac i Mair am gyfeilio. Aeth pawb nôl mas i'r gwynt a'r glaw ond gyda'u calonnau'n gynnes wedi oedfa lawen a bendithiol.

# BORE COFFI

**CYMORTH CRISTNOGOL**

**Dydd Sadwrn,**
**25 Ebrill**
**am 10.00-12.00**
**Capel Y Bedyddwyr Saesneg**
**Heol Awst**

**Croeso i bawb**




DWY FUNUD I FEDDWL




Diolch i'n Gweinidog a phawb arall a gymerodd ran yn y gyfres uchod i'n paratoi ar gyfer y Pasg drwy gyfnod y Grawys a hefyd am ddarlleniadau'r Pasg. Rydym yn wir ddiolchgar.

# BORE COFFI

**i godi arian tuag at**
**Papur Misol**
**Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin**

**DYDD MERCHER, 6 MAI 2026**
**10.00 - 12.00**
**FESTRI CAPEL HEOL AWST**
**Paned, Stondinau a Raffl**





## NOSON LAWEN YN ELIM





Cynhaliwyd Noson Lawen yn Elim nos Wener 20 Mawrth a drefnwyd gan Chwiorydd Elim. Roedd y festri'n llawn, y bwyd yn fendigedig a'r adloniant gan *Perlau Taf* yn arbennig. Grŵp o ddisgyblion Ysgol Ramadeg Hendy-gwyn ar Daf oedd *Perlau Taf* a ffurfiwyd yn 1968 gan y diweddar John Arfon Jones. Roeddent yn rhan o fwrlwm y grwpiau pop a chanu gwerin ysgafn yng Nghymru yn y 60au hwyr a'r 70au cynnar. Aeth rhai aelodau, fel Tecwyn Ifan, ymlaen i sefydlu grwpiau *Ac Eraill* a *Beca* yn y 70au. Hyfrydwch oedd cael eu cwmni yn festri Elim a chawsom wledd yn gwrando ar eu hanes yn ogystal â mwynhau'r canu. Croesawyd pawb gan Ann Walters, cyn i Beti-Wyn gyflwyno Llywydd y noson, sef Julia Lewis, un o blant Elim sydd bellach yn byw yn Aberdâr, ond sy'n ymwelydd cyson â ni. Rhannodd Julie rai o'i hatgofion am ei magwraeth yn Elim. Noson ardderchog yn wir. Diolch i bawb a fu wrthi'n trefnu ym mhob ffordd a phawb a ddaeth i gefnogi.

## CYNGERDD DATHU 300 MLWYDDIANT CAPEL HEOL AWST



Daeth cynulleidfa niferus iawn ynghyd i Gapel Heol Awst nos Sul 22 Mawrth i'r gyngerdd dathlu. Bu disgwyl mawr am y noson a pharatoadau gofalus yn eu lle, diolch i Olga WIlliams a'i thîm. Ni chawsom ein siomi a chafwyd dathliadau gwirioneddol yng nghwmni yn agos at 100 o blant a phobl ifanc a oedd yn cynnwys Corau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnon- ddrain. Bu eu cyfraniadau i'r gyngerdd yn werthfawr tu hwnt a phob eitem yn raenus Yr arweinyddion oedd Berian Lewis a Nia Evans gyda Nia Clwyd yn cyfeilio i'r Parti Cerdd Dant. Fe'n hanrhydeddwyd hefyd gan gwmni a chyfraniadau'r soprano Fflur Wyn



a ddaeth atom yn unswydd o Lundain. Roedd ei llais peraidd yn llenwi'r adeilad i gyfeiliant medrus Sioned Beynon. Felly hefyd Gruffydd Wyn, seren Cân i Gymru a Britains Got Talent a ganodd yn fendigedig.

Cadeirydd y noson oedd y Prif Gwnstabl Ifan Charles, un o blant Heol Awst, a phleser oedd ei glywed yn rhannu atogfion am ei blentyndod yn Heol Awst a'i ddylanwad ar ei fywyd ym more oes. Meirion Wynne Jones oedd wrth yr organ gan godi'r canu cynulleidfaol i'r uchelfannau. Bu Sioned Beynon yn cyfeilio i bawb drwy'r noson, a mawr yw ein diolch iddi hithau a Meirion, dau o gymwynaswyr talentog yr ardal, am eu gwaith. Diolch i'r noddwyr, Cwmni Cyfrifwyr H B Enoch Owen a Chronfra Aeres ac Ifor Evans am y nawdd hael tuag at gostau'r gyngerdd.

Do, bu'n noson a fydd yn aros yn y cof - yn ddathliad o'r hyn a fu, ac yn ysbrydoliaeth wrth i ni edrych i'r dyfodol. Priodol oedd diweddu'r noson wrth i'r gynulleidfa gydganu geiriau'r Parchg Peter Thomas:

*‘Cerddwn ymlaen i’r yfory,*
*chwifiwn faner yn y gwynt,*
*seiniwn glod am a gafwyd,*
*am fendithion dyddiau gynt;*
*am y rhai fu yma’n sefyll*
*ac yn brwydro dros y gwir*
*seiniwn glod a cherddwn ymlaen.*













## PANED A SGWRS MIS EBRILL

*Gwesty'r Llwyn Iorwg*



## RHIFAU ARGYFWNG

Y Samariaid yng Nghymru: Ffoniwch 116 123
Tir Dewi: Ffoniwch 0800 121 4722
Anxiety UK: Ffoniwch 03444 775774
CALM: Ffoniwch0800 585858
Mind: Ffoniwch 0300 123 3393
No Panic: Ffoniwch 0844 967 4848
Bereavement: Ffoniwch 0800 068 4141
Abuse: Ffoniwch 0808 2000 5000
Refuge:Ffoniwch 0808 200 0247
DPJ, Rhannwch Y Baich – 0800 587 4262
neu'r linell neges destun – 07860 048 799

**ADRODDIADAU BLYNYDDOL 2025 EGLWYSI'R OFALAETH**

**Mae'r adroddiadau hyn i gyd wedi'u cyhoeddi erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn i holl swyddogion y gwahanol eglwysi a fu wrthi'n ddyfal yn eu paratoi a'u dosbarthu. Gwerthfawrogir y cyfan.**

## GWASANAETH PASG CARTREF PRESWYL PLAS-Y-DDERWEN









## PRIODAS CARYS A DEAN



**Dymuniadau gorau i Carys Hopley (HA) a Dean Lewis ar achlysur eu priodas yng Nghapel Heol Awst Ddydd Sadwrn, 28 Mawrth 2026**

## PANED A SGWRS

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**BORE MERCHER, 10 MEHEFIN 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**

## PANED A SGWRS

**Tafarn y Fox & Hounds, Bancyfelin**
**BORE IAU 16 EBRILL 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**




**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn

## Y DIWEDDAR KEN MORRIS (ELIM)

Trist gennym glywed am golli Ken Morris a hunodd yn dawel ar 26 Chwefror tra oedd ar wyliau yn Avlor, Portiwgal.



Brodor o Fancffosfelen oedd Ken, ac wedi cwblhau ei addysg yn lleol, derbyniodd addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor.

Cychwynnodd yrfa ym myd addysg a bu'n addysgu yn Litchfield a Chaerloyw tan iddo gwrdd ag Edna, a chael ei ddenu nôl i Gaerfyrddin! Ymgartrefodd y ddau yn Nant-yr-arian ar ôl priordi, a daeth yr aelwyd yn gartref i dri o blant.

Treuliodd weddill ei yrfa yn gweithio i Gwmni Yswrant Sun Life of Canada. Roedd ganddo hoffter mawr o geffylau ers yn fachgen ifanc iawn, ac ymddiddorodd yn fawr ym myd y National Hunt. Roedd e, fel Edna, y olffiwr o fri hefyd.

Roedd Ken wrth ei fodd yn ymweld ag Alvor bob gaeaf, ac yno y treuliodd ei wythnosau olaf gan dderbyn gofal arbennig yn yr ysbyty lleol.

Cynhaliwyd angladd breifat iddo yn yr Amlosgfa yn Alvor, Portiwgal ar fore Mawrth, 3 Mawrth, a rhoddir ei lwch i orwedd ym mynwent Brechfa yn y dyfodol agos.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Edna, Alison, Wendy, Mark a'u teuloedd ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.

**Ein Gweinidog**

Derbynnir rhoddion er cof am Ken, os dymunir, tuag at "Blood Bikes Wales" trwy law Iwan Evans, Glanmor Evans a'i Fab.

EIN cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am John Thomas (C), Nansi Hayes (P), Mair Loader (HA), Enid Evans (P), Gwion James © aTomos Axford (P). Cofion annwyl atoch i gyd.

Yn ein rhifyn diwethaf cyfeiriwyd at Steffan Rizzi (P) ar Pnawn Da ar S4C yn trafod ei ran yn y gyfres Call the Midwife ar BBC1. Bu hefyd yn ddiweddarach yn dilyn yn un trywydd ar Heno ar S4C.



Fe nodon ni hefyd yn ein rhifyn diwethaf fod Fiona Elias yn un o dri aelod staff Ysgol Gyfun Dyffryn Aman a oedd ar y rhestr fer yn y categori dewrder ar gyfer Gwobrau Dewi Sant Llywodraeth Cymru 2026. Gwyddom erbyn hyn i'r tri ddod i'r brig a llongyfarchiadau mawr iddynt.

Cafodd Huw Michael (P) ei holi ar Newyddion S4C am y cyhoeddiad gan OFGEM fod gostyngiad yn mynd i fod ym mhrisiau nwy a thrydan o 1 Ebrill ymlaen -trydan yn gostwng 11% a nwy 3% - 7% ar gyfartaledd i'r cwsmer nodweddiadol. Mae'r gostyngiad yn dilyn bwriad y llywodraeth i symud y costau polisi (trethi amgylcheddol) oddi ar y biliau ynni i'r dreth gyffredinol. Gostyngiad un tro fydd hwn.

Bu Elis Roderick (P) ar newyddion S4C yn sôn am yr oedi a fu wrth iddo yntau a'i gyfeillion ym Mhrifysgol Caerdydd ddychwelyd o Iwerddon drwy borthladd Caergybi ar ôl bod yn gwylio'r gêm rygbi ryngwladol rhwng Iwerddon a Chymru

Gwelwyd Steffan a Gareth Jones (P) ar Newyddion S4C y tu allan i'r Cae Ras yn ceisio darogan canlyniad y gêm ddarbi Gymreig yn y Bencampwriaeth rhwng Wrecsam ac Abertawe. Gwell lwc y tro nesaf, fechgyn!!

Bu'r Dr Nia Bowen (C), Swyddog Hyfforddiant Sefydliad DPJ, sef elusen iechyd meddwl Gymreig i gefnogi'r rhai mewn

amaethyddiaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl, yn sôn am Lori Iechyd newydd i ffermwyr Gogledd Cymru ar y Bwletin Amaeth (Podlediad) ar Radio Cymru. Hefyd ar y Bwletin Amaeth bu Huw Michael (P) ac eraill yn trafod effaith y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol ar y diwydiant amaeth.

Bu'r Dr Llinos Roberts (P) yn cynnig sylwadau ar Newyddion S4C ynghylch trydydd adroddiad Ymchwiliad Covid-19 y DU, sy'n pwyso a mesur effaith y pandemig ar wasanaethau iechyd yn benodol, ar draws y pedair gwlad.

Clywyd Pat Jones (P) ar Bore Cothi ar Radio Cymru yn sôn am Gôr Eifionydd y mae'n arweinydd arno. Dymuniadau gorau i'r côr sy'n dathlu pen-blwydd yn 40 oed.



*LLONGYFARCHIADAU* mawr i Rita Brown (P) ar ddod yn hen-famgu unwaith eto – i Talan Gwilym y tro hwn!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:

Bethan Morgan (E) ar farwolaeth ei modryb, Eirwen Jones, Cwmffrwd.

Gwynfor Davies (P) ar farwolaeth ei gefnder Islwyn James, Ynystawe.

Jane Davies (B) ar farwolaeth ei chwaer Bertha Evans a'i chwaer yng nghyfraith Eirlys Jones.

Clywsom hefyd am golli Mrs Rhiannydd Powell (HA). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn cynnwys Emyr Vaughan (B) a Susan Fitzpatrick (B) sydd wedi colli modyb. Ni ddaeth manylion i law am ei hangladd cyn i'r Papur fynd i'r Wasg.

Meddyliwn amdanoch oll yn eich colled a'ch hiraeth.

## DYLETSWYDDAU EBRILL

### BANCYFELIN

**Cadw'r mis: Ann Jones**
**Cyhoeddwr: Joanne Richards**
**Organydd: Gwyneth Griffiths**
**Blodau:**
**5 Ebrill- Nia Ward**
**19 Ebrill: Julie Saer**
**Ymwelwyr: Joanne Richards a Julie Saer**

### CANA

**Gofalwr y mis: Rhian Bowen**
**Cyhoeddwr: Marlene Jones**
**Organydd: Mair Jones**
**Blodau:**
**12 Ebrill: Myra Evans**
**26 Ebrill: Ceirios John**
**Ymwelwyr: Carolyn a John Hancock**

### ELIM

**Cyhoeddwr: Brian Walters**
**Organydd: John Evans**
**Blodau: Mirain Walters**
**Gosod y bwrdd Cymun: Mirain Walters**
**Ymwelwyr: Y Gweinidog**

### HEOL AWST

**Cyhoeddwr: Nigel George**
**Ymwelwyr: Yr aelodau**
**Cyfeilyddion:**
**12 Ebrill: Llio Dyfri**
**26 Ebrill: Olga Williams**
**Dyletswyddau'r Sul: Alun ac Olga Williams**

## Y PRIORDY

**Gofalwr: Emlyn Schiavone**
**Gwresogydd: Huw Jones**
**Cyhoeddwr: Elinor Wyn Reynolds**
**Gosod y Bwrdd Cymun: Teulu Catrin Heledd**
**Darllenwyr:**
**5 Ebrill – Nia Lewis**
**12 Ebrill – Huw Jones**
**19 Ebrill – Jayne Woods**
**26 Ebrill – Miriam Wyrwoll**
**Ymwelwyr: June Thomas a Heather Williams,**
**Mwynwen Jones, Llinos Roberts**
**Blodau:**
**5 Ebrill: Pat Jones**
**12 Ebrill: Heol Awst**
**19 Ebrill: Ann Thomas**
**26 Ebrill: Ann Thomas**

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| BANCYFELIN | Nos Fawrth 30 Mehefin | 7.30 | Y Festri |
| | | | |
| CANA | Prynhawn Iau 11 Mehefin | 1.30 | Y Festri |
| | | | |
| ELIM | Bore Mercher 3 Mehefin | 11.00 | Y Capel |
| | | | |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher 3 Mehefin | 2.00 | Y Festri |
| | | | |
| Y PRIORDY | Nos Lun 1 Mehefin | 7.00 | Y Festri |

**CWRDD DOSBARTH MYRDDIN (PRESBYTERIAID)**



**Nos Lun 27 Ebrill am 7**
**yng**
**Nghwmdwyfran**

# SULIADUR EBRILL 2026



| **Dyddiad** | **10.00**<br>***Oni noder yn wahanol*** | **11.30** | **1.30**<br>***Oni noder yn wahanol*** | **3.00** | **7.00** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2**<br>**Iau Cablyd** | | | | | Tabernacl ©<br>Oedfa Gymun i Gapeli Cymraeg y dref am 7.00.<br>Desmond Davies |
| **Ebrill 3**<br>**Y Groglith** | Tabernacl<br>Oedfa bregethu i Gapeli Cymraeg y dref 10.30<br>Peter Thomas | | Pererindod i Gopa Bryn Myrddin. Cwrdd am 2.30.<br>Oedfa ar ben y bryn am 3.00.<br>Paned am 3.30<br>Gweinidog | | |
| **Ebrill 5**<br>**Sul y Pasg** | Priordy©<br>Oedfa Gymun i'r Ofalaeth gyfan<br>Gweinidog | | | Bancyfelin i'r Ofalaeth gyfan.<br>Gorymdaith y Pasg am 3.00.<br>Oedfa a phaned | |
| **Ebrill 12** | Heol Awst (E, HA &P)<br>Andrew Lenny | | Cana (a Bancyfelin)<br>Alun Lenny | | |
| **Ebrill 19** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | Bancyfelin<br>Gweinidog | | |
| **Ebrill 26** | Priordy<br>Gweinidog | | Cana<br>Gweinidog | Heol Awst (+E)<br>Gweinidog | |

## Amserlen yr Ysgolion Sul - Ebrill 2026

**Cana**
Ebrill 5 - Dim Ysgol Sul
Ebrill 12 - Ysgol Sul
Ebrill 19 - Ysgol Sul
Ebrill 26 - Ysgol Sul

**Y Priordy**
Ebrill 5- Dim Ysgol Sul
Ebrill 12 - Dim Ysgo Sul
Ebrill 19 - Ysgol Sul
Ebrill 26 - Ysgol Sul

**Pobl Ifanc Y Priordy**
Ebrill 19 - PIP

**Elim**
Ebrill 5- Dim Ysgol Sul
Ebrill 12 - Dim Ysgol Sul
Ebrill 19 - Ysgol Sul
Ebrill 26 - Ysgol Sul





## Pererindod Gwener y Groglith 2026
## Cario'r Groes i
## Gopa Bryn Myrddin

**Gadael Alltyfyrddin (SA32 7ER)**
**am 2.30yp yn brydlon**
**Oedfa fer ar ben y bryn am 3.00yp**
**Cyfle i brynu paned a chacen yn Alltyfyrddin**
**ar ddiwedd y daith. Pris £4.00**
**Os nad ydych am gerdded,**
**croeso i chi ddod am baned erbyn 3.30**

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
Y Gymdeithas

COFIO

# ANN GRIFFITHS

(1776-1805)
i nodi 250 mlynedd ei geni

Darlithydd:
## YR ATHRO E. WYN JAMES

Gyda
HELEN GIBBON
yn canu detholiad o emynau Ann Griffiths

## DYDD MAWRTH, 19 MAI 2026
## am 2.00 yp

FESTRI CAPEL HEOL AWST, CAERFYRDDIN
SA31 3AP

CROESO CYNNES I BAWB